
Hygyrchedd Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG)

Adroddiad blynyddol ar welliannau ar gyfer pobl sydd â
nam ar eu golwg

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 19 Mehefin 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Mae pobl sydd â nam ar eu golwg yn gwylio cymaint o deledu â phobl eraill ond maen nhw'n wynebu anawsterau penodol wrth ddefnyddio cyfeiryddion rhaglenni teledu (a elwir yn gyfeiryddion rhaglenni electronig neu'n EPGs) i ddewis beth maen nhw'n ei wyllo. Felly, gall hyn gyfyngu'n ddiangen ar yr hyn y gallant ddewis ei wyllo, ac fe allant golli'r cyfle i ddod o hyd i raglenni, a'u gwylio.

Mae'r [cod EPG](#) (a luniwyd o dan [Ddeddf Cyfathrebiadau 2003](#)¹) yn nodi'r arferion i'w dilyn gan ddarparwyr EPG mewn perthynas â'r nodweddion a'r wybodaeth sydd eu hangen fel bod pobl ag anableddau yn gallu defnyddio'r EPGs.

Ym mis Mehefin 2018 yn dilyn [ymgyngoriad](#), gwnaethom [ddiwygiadau i'r Cod EPG](#) i wneud yn siŵr bod pobl sydd â nam ar eu golwg yn gallu defnyddio EPGs yn yr un modd ag y mae pobl heb anableddau o'r fath yn eu defnyddio (gweler adran A1). Dyma ein hail adroddiad blynyddol yn dilyn y diwygiadau, ond hwn yw'r cyntaf i gynnwys cyfnod adrodd blwyddyn lawn.

¹ [310\(3\) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.](#)

Crynodeb o'r adroddiad

Rydym yn gwybod ei bod hi'n cymryd amser i roi'r holl newidiadau angenrheidiol ar waith yn dilyn y diwygiadau a wnaethom i'r Cod yn 2018 i wneud yn siŵr bod pobl sydd ag anhwylderau yn gallu defnyddio EPGs yn yr un modd ag y mae pobl heb anableddau o'r fath yn eu defnyddio. Rydym yn deall bod darparwyr yn dal i weithio ar weithredu'r nodweddion hygyrchedd angenrheidiol, ac mae'n amlwg bod nifer o ddarparwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i hygyrchedd yn eu cynlluniau. Yn benodol:

- Mae rhai darparwyr yn blaenoriaethu cynnwys nodweddion hygyrchedd wrth ddatblygu cynnyrch ac yn mynd ati i gael mewnbwn gan grwpiau defnyddwyr yn ystod y cam dylunio.
- Mae rhai darparwyr yn gwneud ymdrechion i amlygu pwysigrwydd y nodweddion hyn i'wartneriaid gweithgynhyrchu.
- Digital UK yn arloesi gyda chynlluniau ar gyfer amserlen deledu ar sail rhaglen sydd wedi'i dylunio'n benodol ar gyfer defnyddwyr hygyrch
- Darparwyr yn rhoi amserlenni penodol ar gyfer gweithredu a chynlluniau manwl ar gyfer nodweddion, y gallem ni eu cydnabod yn ein hadroddiadau.

Rydym yn croesawu'r camau cadarnhaol hyn, ac rydym wedi cael adborth cadarnhaol gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) ar weithio gyda darparwyr mewn sawl maes datblygu ac ymgysylltiad parhaus rhai darparwyr. Byddwn yn parhau i ofyn am farn grwpiau cynrychioladol mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae gennym bryderon bod rhai darparwyr yn llithro y tu ôl o ran cynnwys nodweddion hygyrchedd a'r diffyg cynnydd mewn rhai meysydd. Yn benodol:

- Mae rhai darparwyr wedi adrodd ychydig neu ddim cysylltiad â grwpiau defnyddwyr a chynrychiolwyr mewn trafodaethau ynghylch y nodweddion, neu ddulliau amgen. Rydym yn annog pob darparwr i weithio gyda'r grwpiau hyn er mwyn sicrhau bod y nodweddion maen nhw'n eu darparu yn fanteisiol i'r defnyddwyr y'u bwriadwyd ar eu cyfer.
- Mae rhai hefyd wedi cadw eu hamserlenni a chynlluniau manwl ar gyfer gweithredu yn gyfrinachol. Rydym yn deall efallai bod rhywfaint o'r wybodaeth yn fasnachol sensitif, ond rydym yn annog darparwyr i rannu gwybodaeth ynghylch eu cynlluniau a datblygiadau lle bo modd, am ei fod yn werthfawr i ddefnyddwyr, yn enwedig y rhai sydd â nam ar eu golwg.